# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
K.V. Broom, K. Davies, W.T. Evans, K. Lloyd, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas a D.T. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
S. Frewin, Senior Manager Community Inclusion
S. Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 2.00 yp - 3.40 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, I.W. Davies, D.M. Jenkins [yr Aelod Cabinet dros Adnoddau], M.J. Lewis, J. Tremlett [yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol].

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Ken Lloyd | **4.** Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2021/22 | Buddiant personol - cysylltiad agos â rhywun sy'n ofalwr yn y Cynllun Cysylltu Bywydau. Gollyngiad wedi'i ganiatáu gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid i bleidleisio ar faterion penodol yn ymwneud â'r Cynllun Cysylltu Bywydau. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2021/22

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried. Roedd y Cynghorydd Lloyd wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid i bleidleisio ar faterion penodol yn ymwneud â'r Cynllun Cysylltu Bywydau.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2021, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2021/22.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gorwario £168k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai -£65k o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2021/22.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol wrth y Pwyllgor fod rhai meysydd yn dangos amrywiannau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb a bennwyd fis Chwefror diwethaf a bod yr amrywiannau hyn yn deillio o’r ffaith bod y pandemig yn effeithio ar weithgareddau. Sicrhawyd y Pwyllgor bod perfformiad yn parhau i gael ei fonitro a bod cyllid brys yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau i sicrhau bod cynifer o wasanaethau â phosibl yn cael eu darparu.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder bod y gyllideb yn dal i ddangos gorwariant er nad oedd llawer o wasanaethau wedi'u darparu yn ystod y pandemig.
- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r gwariant cyfalaf ar gyfer Cartref Cynnes. Dywedodd swyddogion fod yr arian wedi bod yno ers dechrau'r cynllun ac y byddai'n aros yn y gyllideb gyfalaf nes bod y cytundeb prydles gyda Tai Teulu wedi'i lofnodi.
- Gofynnwyd ai'r gostyngiad mewn pecynnau gofal cartref dau ofalwr i 18% erbyn diwedd 2021/22 o 25.4% yn 2018/19 oedd y ffordd orau ymlaen. Mynegwyd pryder y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar unigolion a theuluoedd.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig y byddai adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal ar y cyd â'r darparwr ac ar y cyd â'r unigolyn a'i deulu. Yn amlach na pheidio, byddai'n golygu newid syml megis defnyddio offer a fyddai'n galluogi unigolyn i fod yn fwy annibynnol yn hytrach na bod angen dau berson i roi cymorth iddo. Dywedwyd bod yr Awdurdod yn adolygu pecynnau gofal dau ofalwr fel mater o drefn ac yn ystyried ffyrdd eraill o ddarparu'r offer cywir. Byddai'r adolygiadau fel arfer yn cael eu harwain gan therapyddion galwedigaethol a byddai gofal dau ofalwr yn cael ei leihau dim ond pe bai'n cael ei ystyried yn ddiogel i wneud hynny.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch lleihau nifer y cleientiaid sy'n derbyn pecynnau gofal cartref am lai na 5 awr yr wythnos yn unol ag argymhellion yr Athro Bolton.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod yr Athro Bolton yn cael ei ystyried yn arbenigwr yn ei faes a'i fod wedi ysgrifennu nifer o bapurau academaidd ynghylch egwyddorion hyrwyddo annibyniaeth. Dywedwyd bod yr Athro Bolton wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ledled Cymru, gan adolygu'r ffordd yr oedd pecynnau gofal yn cael eu darparu i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar ofal. Canfuwyd na fyddai angen gofal ar unigolion sy'n derbyn pecynnau gofal bach iawn petai newidiadau bach yn cael eu gwneud – megis defnyddio technoleg. Mewn rhai achosion, gallai newidiadau bach wneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gallu rhywun i ymdopi'n annibynnol.

- Gofynnwyd a oedd yr Awdurdod ar y trywydd iawn o ran y cynnydd yn nifer y bobl â dementia sy'n derbyn y gwasanaeth Bywydau Bodlon.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod yr Awdurdod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ac yn adolygu sut y gellid cynnal y gwasanaeth Bywydau Bodlon yn y dyfodol.
- Gofynnwyd beth oedd dan sylw yn y Gwasanaeth Pontio.
  Dywedodd swyddogion mai gwasanaeth gofal cartref tymor byr oedd hwn lle'r oedd gofal yn cael ei ddarparu ar unwaith. Roedd y gwasanaeth tymor byr yn rhoi cyfle i asesu anghenion cyn penderfynu ar y pecyn gofal tymor hwy.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2022/23 TAN 2024/25

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2022/23 - 2024/25 a oedd wedi ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2021. Nodwyd hefyd fod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori ar y gyllideb yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl.

- Atodiad A - Strategaeth Cyllideb Gorfforaethol 2022/23 - 2024/25
- Atodiad A(i) – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad A(ii) – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad B – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Atodiad C – Crynhoad Taliadau ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol grynodeb o'r adroddiad. Roedd y pwyntiau allweddol dan sylw yn cynnwys:

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynigion effeithlonrwydd diweddaraf. Roedd yn ystyried y gwaith dilysu angenrheidiol o ran y gyllideb, y wasgfa ar wasanaethau a'r setliad cyllideb dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau ar 21 Rhagfyr 2021.
- Er bod y setliad dros dro yn uwch nag a gynlluniwyd, roedd maint y pwysau gwariant ar lefel na welwyd ei thebyg o'r blaen. O ystyried hyn, byddai angen i'r Awdurdod barhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy'r gyllideb hon a chyllideb y blynyddoedd nesaf.
- O edrych ar Gymru gyfan, roedd y setliad dros dro llywodraeth leol wedi cynyddu 9.4% ac roedd setliad Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu 9.2%. Roedd y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu i £311.957 miliwn yn 2022/23. Byddai hyn yn helpu i ddarparu ar gyfer ffactorau chwyddiant, demograffeg a newidiadau i'r galw am wasanaethau, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol.
- Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi manylion Grantiau Gwasanaethau Penodol ochr yn ochr â'r setliad dros dro ar 21 Rhagfyr 2021 ar lefel Cymru gyfan. Roedd yn bryder bod llawer wedi aros ar lefel debyg i flynyddoedd blaenorol o ystyried effaith dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol.
- Dywedwyd na fyddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 1 Mawrth 2022.
- Roedd llythyr y Gweinidog a ddaeth gyda'r setliad yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor dalu cost unrhyw ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol o'r setliad gwell.
- Tynnwyd sylw at y ffaith mai £3.8m oedd y gostyngiadau yn y gyllideb yr oedd eu hangen ar gyfer 2022/23 a fyddai'n sicrhau, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol, y gellid darparu gwasanaethau hanfodol o hyd.
- Gan ystyried y setliad dros dro, y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf oedd 4.39%.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Gofynnwyd a oedd yr adolygiad o wasanaethau trafnidiaeth yn cynnwys gwneud gwell defnydd o'r bysiau sydd ar gael gan gynnwys gwasanaethau megis Dolen Teifi.
  Rhoddodd yr Uwch-reolwr Cymorth Busnes sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod yn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac y byddent yn edrych ar osod pwyntiau gwefru.
- Gofynnwyd i swyddogion pa effaith yr oedd Covid wedi'i chael ar ddemograffeg a hefyd effaith mudo i'r Sir.
  Dywedodd swyddogion eu bod yn ansicr pryd y byddai data'r cyfrifiad yn cael ei roi ac na chafodd data ynghylch mudo i'r sir ei gasglu. Cadarnhawyd y byddai data'n cael ei roi, ond ni wyddys pryd y byddai hynny'n digwydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**5.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2022/23 – 2024/25 yn cael ei dderbyn;**

**5.2 Bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL ADRAN CYMUNEDAU 2022/23

Bu’r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes 2022/23 yr Adran Cymunedau mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl:

- Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel (yr elfen Cartrefi Gofal yn unig)
- Comisiynu a Chymorth Busnes
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Integredig

Nodwyd bod effaith y pandemig a BREXIT wedi creu ansicrwydd o ran cynllunio yn y dyfodol ac y gallai'r cynllun newid.

Tynnodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel sylw at y ffaith bod y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn eithriadol ar draws yr holl wasanaethau yn gyffredinol, ond ei fod yn gyfnod arbennig o unigryw ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder ynghylch recriwtio a chadw staff a phrinder gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr cartref.
  Ailadroddodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod cynllun 10 mlynedd yn cael ei lunio a fyddai'n canolbwyntio ar staffio ac adnoddau. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod gwaith eisoes wedi'i wneud o ran recriwtio a bod pob ffordd o recriwtio yn cael ei hystyried, gan gynnwys recriwtio dramor.
- Gofynnwyd a oedd digon o adnoddau yn y timau i reoli'r gwaith ychwanegol, yn enwedig y tîm Comisiynu.
  Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod yr Adran Gomisiynu yn cael ei had-drefnu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r newidiadau mewn comisiynu.

**PENDERFYNWYD derbyn Cynllun Busnes Adrannol yr Adran Cymunedau 2022/23.**

## 7. ADOLYGIAD GORCHWYL A GORFFEN AR UNIGRWYDD YN SIR GAERFYRDDIN - ADRODDIAD DIWEDDARU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Diweddaru yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran yr argymhellion a ddeilliodd o'r Adolygiad Gorchwyl a Gorffen a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod y pandemig wedi arafu'r cynnydd gan mai'r flaenoriaeth oedd cynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol. Er gwaethaf hyn, gwnaed camau cadarnhaol gan gynnwys y Strwythur Gwasanaeth Integredig newydd a oedd wrthi'n cael ei gwblhau.

Fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer ad-drefnu'r Gwasanaethau Integredig, cynigiwyd bod Uwch-reolwr Atal yn cael ei benodi a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gydgysylltu'r dull atal ar gyfer y Sir. Yr Uwch-reolwr hwn fyddai'r arweinydd gweithredol strategol ar gyfer atal a datblygu Strategaeth Atal gyffredinol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a byddai'n arwain y gwaith sy'n gysylltiedig â'r argymhellion gorchwyl a gorffen. Byddai Grŵp Atal hefyd yn cael ei sefydlu yn gynnar yn 2022 a fyddai'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Atal a rhoi Cynllun Gweithredu ar waith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad diweddaru ynghylch Awtistiaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 10 Mawrth 2022.**

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20FED RHAGFYR 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 20 Rhagfyr 2021 gan eu bod yn gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**